DAVIES, THOMAS (TEGWYN, 1831-1924), teiliwr, casglwr llyfrau a llenor

Enw: Thomas Davies
Ffugenw: Tegwyn
Dyddiad geni: 1831
Dyddiad marw: 1924
Priod: Elisabeth Davies (née Breese)
Plentyn: L.A. Breese Davies
Plentyn: John Breese Davies
Rhiant: Elizabeth Davies
Rhiant: Hugh Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: teiliwr, casglwr llyfrau a llenor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganed Thomas Tegwyn Davies ar 11 Tachwedd 1851, yn y Ty Gwyn, Abercywarch, yn fab i Hugh ac Elizabeth Davies. Yr oedd ei wraig, Elisabeth, yn hanfod o deulu Breesiaid Llanbryn-mair, a'i fab John Breese Davies yn arbenigwr ym maes cerdd dant.

Teiliwr oedd wrth ei alwedigaeth; ymhlith y tai y gweithiai ynddynt (yn ôl yr hen arfer) yr oedd rheithordy Llan-ym-Mawddwy yng nghyfnod D. Silvan Evans; symbylodd ' Silvan ' lawer ar ei lengarwch. Tyfodd yn gasglwr llyfrau ac yn llenor; sgrifennai'n helaeth i gyfnodolion fel yr *Eurgrawn*, *Y Traethodydd*, a *Cymru (O.M.E.)*; ac yn 1893 cyhoeddodd lyfr, *Dinas Mawddwy a'i Hamgylchoedd*. Bu farw yn Ninas Mawddwy ar 10 Rhagfyr 1924.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Yr Eurgrawn, Rhagfyr 1925

manylion gan ei ferch, Miss L. A. Breese Davies

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360862

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu